HELEDD FYCHAN AS

Plaid Cymru - Canol De Cymru

CYNNWYS

Allan yn y Gymuned • Busnes y Senedd • Newyddion arall • Cysylltwch â ni

Mae'r cylchlythyr yma'n gyfle i'ch diweddaru ar fy ngwaith a rai o'r materion rwyf wedi bod yn eu codi yn y Senedd ac ar draws y rhanbarth dros y misoedd diwethaf.

Mae effaith yr argyfwng costau byw yn parhau i effeithio ar unigolion a theuluoedd ar draws y rhanbarth. Rwy'n parhau i gael lefelau uchel o waith achos, a rhai o'r materion allweddol yr ydym wedi bod yn cefnogi etholwyr â hwy ac wedi'u codi yn y Senedd yw amseroedd aros y GIG, lechyd Menywod, cost trafnidiaeth gyhoeddus a'r effaith ar bresenoldeb yn yr ysgol yn ogystal â materion yn ymwneud â lles anifeiliaid.

Rwyf hefyd wedi cael llawer o bobl yn cysylltu â mi yn dilyn y cyhoeddiad y bydd prydau ysgol am ddim yn dechrau cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion cynradd ledled Cymru o fis Medi ymlaen i ddiolch i Blaid Cymru am flaenoriaethu'r mater hwn yn y cytundeb cydweithredu. Rwy'n mawr obeithio y gall ein hawdurdodau lleol ymestyn i bob plentyn mewn ysgol gynradd cyn gynted â phosibl.

Heledd Fychan

Heledd Fychan AS

Dweud eich dweud ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Dros y mis diwethaf mae Plaid Cymru wedi bod yn cynnal cyfarfodydd agored ar draws Cymru i drafod dyfodol y genedl.

Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 31 Gorffennaf 2022 a gallwch gyflwyno'ch ymatebion yma.

Allan yn y gymuned

Rydw i a fy nhîm yn parhau i gwrdd â grwpiau a sefydliadau cymunedol. Mae rhai uchafbwyntiau dros y tri mis yn cynnwys ymweld â'r Hen Lyfrgell yn Porth a chwrdd â dysgwyr Cymraeg bendigedig a dal i fyny â'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i drafod yr adolygiad llifogydd sydd i ddod. Rwyf hefyd wedi bod yn cefnogi Cynghorwyr Plaid Cymru yn eu hymgyrch i sicrhau dyfodol addysg Gymraeg yng ngogledd Pontypridd yn ogystal â siarad yn y gwrandawiad apêl i gefnogi cau Chwarel Craig yr Hesg.

Os hoffech i mi ymweld â grŵp neu sefydliad yn eich ardal, neu os hoffech gael cyngor, cysylltwch â ni.

Gallwch ddysgu mwy am fy ymweliadau ar draws y rhanbarth yma.

Cefnogi grwpiau cymunedol

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae fy nhîm a minnau wedi bod yn cefnogi nifer o grwpiau cymunedol ar draws y rhanbarth. Y mis diwethaf, fe wnaeth fy nhîm gwrdd â Emma a Rhys i drafod sut y gall fy swyddfa eu cefnogi i sefydlu 'Repair Cafe' ym Mhentre' Eglwys.

Mae 'Repair Cafe' yn ffordd wych i gymunedau ddod at ei gilydd a thrwsio pethau y gallent fod wedi eu taflu ymaith gan helpu i leihau gwastraff a diogelu'r blaned. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r grŵp dros y misoedd nesaf.

Os hoffech gael cymorth gyda phrosiectau tebyg, cysylltwch â'm swyddfa ac rydym bob amser yn barod i helpu.

Taith Ysgol Llantrisant i'r Senedd

Nôl ym mis Rhagfyr cynhaliais gystadleuaeth i greu E-Gerdyn Nadolig ar gyfer plant ysgolion cynradd ar draws y rhanbarth ac un o'r enillwyr oedd Briallen o Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant.

Oherwydd cyfyngiadau Covid, mae ymweliadau â'r Senedd wedi'u gohirio ond roedd yn wych croesawu Ysgol Llantrisant i'r Senedd o'r diwedd lle cawsant gyfle i ddysgu mwy am fy rôl a sut y gallant ddefnyddio eu llais i wneud newid yn eu cymunedau eu hunain.

Dathlu Eisteddfod y Urdd

Yn ystod y wythnos olaf o Mai, ymwelais ag Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych gyda fy nheulu. Roedd yn wych bod yn ôl ar y maes am y tro cyntaf ers 2019 gan fod eisteddfodau 2020 a 2021 yn anffodus wedi gorfod cael eu canslo oherwydd Covid.

Roedd yn awyrgylch mor gadarnhaol a hapus, ac roeddwn wrth fy modd bod yr Urdd wedi arbrofi gyda fformatau gwahanol gan olygu bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i berfformio ar y prif lwyfan gan fod tri phafiliwn a dim rhagbrofion.

Mae'r Urdd yn chwarae rhan mor bwysig yn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd, a braf yw eu gweld yn mynd o nerth i nerth ym mlwyddyn eu canmlwyddiant. Ymlaen i'r 100 nesaf!

Tafwyl

Braf iawn oedd ymweld a Tafwyl mis diwethaf a mwynhau'r arlwy yn ogystal a'r stondinau.

Er bod peth glaw, ni wnaeth hynny amharu o gwbl ar yr hwyl a braf oedd gweld pobl o bob oed yn dathlu'r Gymraeg – bod nhw'n siarad yr laith neu beidio.

Mae Tafwyl mor bwysig fel digwyddiad yn ein prif ddinas sy'n dathlu a normaleiddio'r Gymraeg. Llongyfarchiadau i bawb fu'n rhan o'r trefnu ac a gymerodd ran.

Cefnogi Banc Bwyd Rhondda

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae fy swyddfa wedi bod yn gweithio'n agos gyda banciau bwyd ar draws y rhanbarth i'w cefnogi i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

Mis diwethaf ymwelais gyda Banc Bwyd Rhondda a chlywais yn uniongyrchol sut mae'r argyfwng costau byw yn effeithio teuluoedd.

Mae'n destun pryder bod llawer o deuluoedd sydd â phlant ddim yn gallu canfod y cymorth sydd eu hangen arnynt ac yn poeni sut byddant yn bwydo eu plant yn ystod gwyliau'r haf.

Codais y mater hwn yn y Senedd gan holi'r Llywodraeth pa gymorth fydd ar gael i helpu'r teuluoedd hyn. Ni ddylai unrhyw blentyn lwgu na cholli allan ar weithgareddau oherwydd nad ydynt yn gallu fforddio pethau sylfaenol.

Lansio arolwg iechyd



Mae amseroedd aros ysbytai yn parhau i fod yn un o'r prif bryderon rwyf yn ei dderbyn fel gwaith achos. Yn ogystal â chodi'r mater hwn yn y Senedd a gweithio gydag etholwyr, rwyf hefyd wedi lansio arolwg er mwyn cael gwell ddealltwriaeth o'r ffordd orau i'ch cefnogi chi a datrys unrhyw broblemau. Hoffwn glywed am eich profiadau chi o ddefnyddio'r Gwasanaeth Iechyd yn eich ardal. Bydd hyn yn arwain fy ngwaith yn y Senedd wrth lunio cwestiynau i'r Bwrdd Iechyd a'r Gweinidog Iechyd.

Mae'r holiadur ar gyfer trigolion Canol De Cymru (Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg).

Os oes mater brys gyda chi cysylltwch gyda'r Swyddfa yn uniongyrchol.

Diogelu addysg cyfrwng Cymraeg yng ngogledd Pontypridd



Ddydd Mercher 22 Mehefin 2022, pleidleisiodd Cabinet Llafur Cyngor Rhondda Cynon Taf yn unfrydol o blaid cynigion i greu ysgol cyfrwng Saesneg newydd yng Nglyncoch.

Bydd yr ysgol, sydd i fod i gael ei hadeiladu ar safle hen ysgol Tŷ Gwyn, yn cael ei chreu yn dilyn uno ysgolion cynradd Cefn a Chraig yr Hesg.

Daw hyn yn dilyn penderfyniad blaenorol y Cyngor Llafur i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton yng Nghilfynydd, gan olygu y bydd disgyblion o ardaloedd Ynysybwl, Coed-y-cwm, Glyncoch, Trallwn a Chilfynydd yn gorfod teithio ymhellach i dderbyn cyfrwng Cymraeg. Addysg. Roedd ymgyrchwyr ar y pryd wedi gofyn i'r Cyngor adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd neu o leiaf ysgol ddwy ffrwd ar hen safle ysgol Tŷ Gwyn, a dywedwyd wrthynt nad oedd gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer ysgol ar y safle hwnnw.

Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, Jeremy Miles yn gofyn iddo ymyrryd gan fod 81% o gostau'r ysgol newydd i gael eu talu gan Lywodraeth Cymru.

Rwyf wedi fy siomi a fy nhristau gan y penderfyniad hwn, a'r ffaith bod y Cabinet Llafur wedi gwrthod hyd yn oed ystyried cyflwyno ffrwd Gymraeg yn yr ysgol newydd hon. Heb os, bydd hyn yn cael effaith andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, gan na fydd yn darparu mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Yn eu hadroddiad, dywed y Cyngor y bydd hyn yn cynyddu capasiti addysg cyfrwng Saesneg. O ble fydd y disgyblion hyn yn dod os nad o addysg cyfrwng Cymraeg?

Os yw'r Cyngor Llafur a Llywodraeth Lafur Cymru ill dau wedi ymrwymo i darged Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yna pam felly maen nhw'n bwrw ymlaen – ac yn ariannu – cynlluniau fydd yn rhwystro hyn?

Mae'r penderfyniad hwn yn rhwbio halen yn y briw i ymgyrchwyr sydd wedi gofyn dro ar ol tro am gefnogaeth y Cyngor i sicrhau mynediad teg i addysg cyfrwng Cymraeg yn y cymunedau hyn. Rwy'n mawr obeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd cyn i'r penderfyniad niweidiol hwn gael ei weithredu.

Cymru v Wcráin

lYn fy rôl fel llefarydd Plaid Cymru ar Gysylltiadau Rhyngwladol, Chwaraeon a Diwylliant, cefais wahoddiad i fynychu y gêm dyngedfennol rownd derfynol ail gyfle Cwpan y Byd rhwng Cymru a'r Wcráin.

Roedd yn awyrgylch yn y stadiwm yn anhygoel pan enillodd Cymru'r gêm, gan sicrhau ein lle yng Nghwpan y Byd ar ôl 64 mlynedd hir dros ben. Wna'i byth anghofio morio can Yma o Hyd dan arweiniad Dafydd Iwan gyda'r cefnogwyr a'r chwaraewyr.

Mae hwn yn gyfle enfawr i'r tîm a'r wlad gyfan a byddaf yn gweithio gyda'm cydweithwyr yn y Senedd i sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac eraill yn llwyr fanteisio ar y cyfle anhygoel hwn.

Byddaf yn trafod y math o gyfleoedd sydd ar gael i Gymru gydag aelodau o bob plaid yn y grŵp Trawsbleidiol Rhyngwladol rwyf yn ei gadeirio gyda Prif Weithredwr y Gymdeithas Pel Droed, Noel Mooney. Bydd y digwyddiad rhithiol hwn yn digwydd dydd Mawrth nesaf (5 o Orffennaf rhwng 12pm a 1pm). Mae'n agored i bawb, ac os hoffech ymuno, mae croeso ichi fy ebostio am y ddolen.

Eurovision

Siaradais yn y ddadl ddiweddar am yr Eurovision yn y Senedd. Fel rhywun sy'n gwylio'n flynyddol, mae'n siomedig ei bod hi'n annhebygol y bydd Wcráin yn gallu cynnal y gystadleuaeth flwyddyn nesaf oherwydd yr ymosodiadau anghyfreithlon parhaus gan Rwsia.

Mae hyn wedi arwain at y posibilrwy o wledydd eraill yn cynnal y gystadleuaeth a chytunodd aelodau o bob plaid mai Cymru fyddai'r lleoliad perffaith. Er nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r BBC ac Eurovision gyda'r gobaith o ddod â'r gystadleuaeth i'n prifddinas.

Gallai hwn fod yn gyfle cyffrous i Gymru arddangos ein talent ar lwyfan rhyngwladol ac rwy'n edrych ymlaen i gefnogi unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. Onid ydi hi'n hen bryd clywed y Gymraeg yn cael ei chanu yn Eurovision?

Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon

Pan gefais fy ethol, cefais fy newis i fod yn gynrychiolydd Plaid Cymru i Gynulliad Senedd Prydain ac Iwerddon.

Rwy'n Aelod hefyd o'r is-bwyllgor Amgylcheddol a Chymdeithasol ac rydym ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd lleiafrifol brodorol. Cymerwyd tystiolaeth yng Nghymru yn 2019, a diwedd Mai, fe wnaethom ymweld gyda Caeredin.Dyma oedd ein cyfle ni i glywed am y sefyllfa yn yr Alban mewn perthynas â phob iaith frodorol. Ymhlith y rhai a roddodd dystiolaeth oedd Shirley-Anne Somerville MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau, Llywodraeth yr Alban.

Roedd yn hynod ddiddorol clywed gymaint o gyfeiriadau at Gymru gan y rhai a roddodd dystiolaeth, gyda nifer yn adnabod Aled Roberts yn ei rôl fel Comisiynydd y Gymraeg ac yn amlwg wedi'i ysbrydoli ganddo.

Mae ein sesiwn nesaf i fod i gael ei gynnal yng Ngogledd Iwerddon, ac edrychaf ymlaen yn fawr at glywed am ddatblygiadau yn Belfast yn arbennig. Mae cymaint y gallwn ei ddysgu oddi wrth ein gilydd o ran cefnogi twf a defnydd ieithoedd brodorol.

Ymweliad y Pwyllgor Diwylliant â Gogledd Cymru

Ar diwedd mis mai, ymwelais gyda gogledd Cymru gyda'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Fe fuom i lu o lefydd amrywiol, gyda nifer ohonynt yn gyfarwydd iawn imi yn sgil fy swydd flaenorol gyda Amgueddfa Cymru megis Ty Pawb, Theatr Clwyd a'r Amgueddfa Lechi wrth gwrs.
Roedd yn gyfle pwysig i ni fel Pwyllgor glywed am ddatblygiadau ledled rhanbarth tra'n trafod yr effaith a gafodd COVID-19 ar y sefydliadau ynghyd a'u cynlluniau a'u gobeithion at y dyfodol.

Gellir darllen mwy o am y trip yma: Ymweliad cyntaf pwyllgor y Chweched Senedd: ymchwiliad i chwaraeon a diwylliant yng ngogledd Cymru

Cymorthfa Ieuenctid gyda Ruben Kelman

lYn ddiweddar, ymunais gyda Ruben Kelman, Aelod o Senedd Ieuenctid Gogledd Caerdydd yn un o'i gymorthfeydd ieuenctid yn ysgol Uwchradd Llanishen.

Mae'n anrhydedd i cael y cyfle gweithio gyda phobl ifanc ar draws y rhanbarth i wrando ar y materion sy'n bwysig iddynt.

Yn ystod y cymorthfa clywais sut mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgol a sut mae cost trafnidiaeth gyhoeddus wedi bod yn rhwystr i rai o'r disgyblion fynychu'r ysgol.

Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan yr ysgol, roedd 39% o rieni wedi rhannu bod eu plentyn wedi colli ysgol am nad oeddent gallu fforddio cost trafnidiaeth gyhoeddus.

Codais hyn gyda'r Prif Weinidog, a mae'n amlwg fod rhaid i'r Llywodraeth wneud mwy i fynd i'r afael â'r mater hwn. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Ruben ar yr ymgyrch hon i sicrhau na fydd yn rhaid i unrhyw ddisgybl golli dydd o ysgol oherwydd cost trafnidiaeth.

Profiad gwaith: Deian Hughes

Ers cael fy ethol rwyf wedi cael y pleser o groesawu tri pherson ifanc i fy swyddfa i gael rhywfaint o brofiad gwaith.

Y mis diwethaf ymunodd Deian Hughes o Brifysgol Caerdydd gyda ni am ychydig ddyddiau i gael cipolwg ar fy ngwaith yn y Senedd ac ar draws y rhanbarth. Mae Deian newydd orffen ei flwyddyn gyntaf yn astudio cysylltiadau rhyngwladol a gwleidyddiaeth gallwch ddarllen mwy am ei amser gyda ni yma.

Edrychaf ymlaen at gynnig cyfleoedd profiad gwaith tebyg i bobl ifanc ledled y rhanbarth. Os hoffech gael profiad gwaith yn fy swyddfa, cysylltwch â mi drwy e-bost.

Cyfarfod â'r tîm

Danny Grehan - Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned

Amanda Elis - Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned

Brooke Webb - Swyddog Cyfathrebu

Eleri Griffiths - Gweithiwr Achos

Ken Moon - Cydlynydd Dyfodol Cynaliadwy

Sut y gallwn helpu

Rwy'n cynnal cymorthfeydd yn rheolaidd, i gynnig help a chefnogaeth i etholwyr.

Fe allaf i a fy nhîm helpu gyda amrywiaeth eang o faterion megis echyd, Tai, Trafnidiaeth, Addysg a'r Amgylchedd.

Os oes yna unrhyw beth y gallaf wneud i'ch helpu, cysylltwch i drefnu apwyntiad trwy ebost neu ffôn.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda chyngor ar bopeth i gynnal cymorthfeydd cyngor yn y swyddfa. Rhestr o'r dyddiadau a sut i drefnu apwyntiad ar gael ar fy ngwefan yma.

Cysylltwch â Heledd

01443 853214

Heledd.Fychan@Senedd.Cymru

2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ

Heledd Fychan AS / MS

@Heledd_Plaid

@Heledd_Plaid

Plaid Cymru
Party of Wales

Senedd Cymru
Welsh Parliament